

Adroddiad Arolygu

Cylch Meithrin Llanllyfni – Dechrau'n Deg

Neuadd Goffa Llanllyfni
Llanllyfni
Caernarfon
LL54 6SG

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Adroddi

adroddiad heb ei



Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

28/06/2021



Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Cylch Meithrin Llanllyfni – Dechrau'n Deg

Y math o ofal a ddarperir	Gofal Dydd Plant Gofal Dydd Llawn
Darparwr Cofrestredig	Meithrinfeydd Cymru Cyfyngedig
Lleoedd cofrestredig	16
Iaith y gwasanaeth	Cymraeg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	16 Mai 2018
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	Ydy
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio

Auroddiau terfynol heb ei gyhoeddi

Crynodeb

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ystod pandemig COVID-19; felly, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo, ac maent yn mwynhau treulio amser yn y gwasanaeth. Mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r staff a gyda'i gilydd. Mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn siarad â nhw mewn ffordd gynnes a chyfeillgar. Mae'r staff yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau sydd o ddiddordeb i'r plant ac yn eu helpu i feithrin eu sgiliau'n effeithiol. Mae'r teganau a'r adnoddau o ansawdd da ac mae digon o amrywiaeth i ennyn diddordeb y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod pob ardal yn ddiogel a bod unrhyw risgiau yn cael eu rheoli yn briodol. Mae cydberthnasau da wedi'u meithrin â'r rhieni, a chaiff gwybodaeth ei rhannu'n effeithiol, gan sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu.

Adroddiad terfynol heb ei
gyhoeddi

Llesiant

Mae'r plant yn gwneud penderfyniadau o ran sut i dreulio eu hamser. Yn ystod amser chwarae rhydd, maent yn symud yn rhydd o gwmpas y gweithgareddau sydd wedi'u gosod yn barod ar eu cyfer, ac yn teimlo'n gyfforddus i ofyn i'r staff am unrhyw weithgareddau y mae angen help arnynt i'w gosod. Er enghraifft, maent yn hyderus i ofyn i'r staff am help i nôl dŵr o'r gegin fwd awyr agored. Maent yn teimlo'n hyderus i fynegi eu hunain i'r staff ac yn gwybod y bydd eu dymuniadau'n cael eu parchu. Er enghraifft, wrth gwblhau'r dasg canolbwyntio ar gyfer y diwrnod hwnnw, roedd y plant yn hyderus i ddweud wrth y staff eu bod am wneud rhywbeth gwahanol a chawsant eu cefnogi i ddewis teganau gwahanol.

Mae'r plant wedi setlo ac yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd. Maent yn teimlo'n hyderus i fynd at y staff am sgwrs, ac yn gwybod y gallant fynd atynt am dawelwch meddwl neu gysur pan fydd angen. Maent yn awyddus i ddangos eu gwaith i'r staff, gan eu bod yn gwybod y byddant yn cael eu canmol am eu hymdrechion. Mae'r plant wedi dechrau gwneud ffrindiau a sgwrsio â'i gilydd yn ystod amser cinio ac yn ystod amser chwarae, gyda llawer o wenu a chwerthin wrth iddynt wneud hynny.

Mae'r plant yn gwrando'n dda ac yn hapus i helpu gyda thasgau a dilyn cyfarwyddiadau. Maent y chwarae'n dda â'i gilydd ac yn dechrau gwneud ffrindiau. Gall y plant rannu teganau a chymryd eu tro yn dda, er enghraifft wrth chwarae ar y lithren a gyda'r cerbydau bach.

Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae ac yn cael hwyl wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau. Er enghraifft, roedd grŵp o blant yn chwarae'n ddychmygus gyda'i gilydd yn y gegin fwd, gan esgus pobi cacen pen-blwydd. Roeddent yn sgwrsio â'i gilydd ac yn rhoi cyfarwyddyd i'w gilydd ynglŷn â beth i'w wneud nesaf, a chlywsom lawer o chwerthin a sgwrsio hapus wrth iddynt ganu pen-blwydd hapus i un o'r doliau.

Mae'r plant yn canolbwyntio ar dasgau ac yn dangos diddordeb yn yr hyn y maent yn ei wneud. Er enghraifft, wrth lwytho'r berfâu â blociau pren a'u cludo i'r rhan arall o'r ardal chwarae awyr agored i adeiladu llwybr. Roeddent yn canolbwyntio'n dda, yn sgwrsio am beth i'w wneud nesaf ac yn cyfrif pob un o'r blociau wrth iddynt gymryd eu tro i'w gosod ar y llwybr.

Gofal a Datblygiad

Mae'r staff yn deall eu rolau ac yn dilyn y gweithdrefnau cywir er mwyn sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn iach. Maent wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu a gallai'r staff hynny y gwnaethom siarad â nhw ddweud wrthym am y gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe bai ganddynt bryder am blentyn. Mae nifer priodol o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar gymorth cyntaf pediatrig hefyd. Mae'r staff yn cofnodi unrhyw ddamweiniau neu ddigwyddiadau ac yn sicrhau bod y rhieni'n llofnodi'r cofnodion hyn, ond nid yw aelod o'r staff bob amser yn eu llofnodi. Mae'r staff yn sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cynnal o leiaf unwaith bob tymor, ac mae'r rhain yn cael eu cofnodi'n llawn.

Mae'r staff yn hyrwyddo bwyta'n iach ac ymarfer corff; maent yn darparu byrbrydau iach ac yn cynllunio cyfleoedd i'r plant dreulio amser yn yr awyr agored. Maent hefyd yn annog y plant i olchi eu dwylo yn ôl yr angen ac yn dilyn y gweithdrefnau hylendid priodol wrth drin bwyd a newid cewynnau.

Mae'r staff wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant; maent yn siarad â'r plant mewn ffordd garedig a thawel, ac yn rhoi cysur a sicrwydd pan fydd eu hangen ar y plant. Maent yn delio ag unrhyw ddadlau neu ymddygiad amhriodol yn gadarnhaol. Er enghraifft, drwy dynnu sylw'r plant pan fyddant yn dechrau cecru a'u cyfeirio at weithgaredd arall. Roeddent yn rhoi digon o gamoliaeth i'r plant drwy gydol y sesiynau am ddilyn cyfarwyddiadau, dangos cwrteist a chwblhau gweithgareddau.

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac maent yn gyfarwydd â'u hoff bethau a'u cas bethau. Maent yn casglu digon o wybodaeth am anghenion gofal, personol a meddygol unigol y plant cyn iddynt ddechrau mynychu, sy'n eu helpu i gynllunio yn effeithiol. Mae'r person â chyfrifoldeb yn sicrhau bod cynlluniau gweithgareddau manwl ar waith, sy'n cynnwys amrywiaeth dda o dasgau i feithrin sgiliau'r plant ym mhob maes dysgu. Mae'r staff yn cadw profiliau dysgu unigol i orhain cynnydd y plant, yn ogystal â chadw nodiadau arsylwi, ffotograffau ac asesiadau manwl. Caiff ffotograffau ac arsylwadau eu casglu mewn 'llyfr thema' unigol ar gyfer pob plentyn.

Yr Amgylchedd

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn blaenoriaethu diogelwch y plant ac yn sicrhau bod y staff yn dilyn gweithdrefnau i gadw'r plant yn ddiogel. Er enghraifft, mae'r staff yn gofyn i ymwelwyr lofnodi'r llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael yr adeilad, ac mae'r ardaloedd awyr agored yn cael eu cadw dan glo. Mae asesiadau risg ysgrifenedig cynhwysfawr ar waith, sy'n amlinellu unrhyw beryglon posibl i ddiogelwch y plant a sut y caiff y rhain eu rheoli, a chaiff yr asesiadau hyn eu hadolygu a'u diwygio'n rheolaidd. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod ffedogau plastig yn cael eu storio o fewn cyrraedd y plant. Cafodd hyn ei unioni ar unwaith pan dynnwyd sylw'r person â chyfrifoldeb at y mater. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth hefyd wedi llunio asesiad risg a pholisi dynodedig sy'n nodi'r gweithdrefnau ychwanegol sydd ar waith i atal lledaeniad posibl COVID-19.

Mae digon o le i'r plant symud o gwmpas ac archwilio'r ardaloedd chwarae. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wedi trefnu'r ystafelloedd chwarae yn ardaloedd dynodedig lle y caiff gweithgareddau penodol eu cynnal. Er enghraifft, defnyddir drysau llithro i gau ardal ar gyfer gweithgareddau tawelach neu weithgareddau â ffocws penodol, a defnyddir yr ardal â llawr teils ar gyfer chwarae blêr, gweithgareddau crefft ac amseroedd byrbryd. Caiff teganau ac adnoddau eu storio ar lefel isel mewn blychau wedi'u labelu'n glir, ac er bod y dewis yn fwy cyfyngedig na'r arfer oherwydd cyfyngiadau COVID-19, mae'r staff yn cylchdroi'r teganau er mwyn cynnal diddordeb y plant. Mae'r dodrefn, fel byrddau a chadeiriau isel, yn addas ar gyfer oedran y plant. Mae'r staff yn arddangos ffotograffau a samplau o waith y plant ar hysbysfyrddau, gan roi ymdeimlad o berthyn iddynt. Mae'r ardaloedd awyr agored yn cynnig rhai cyfleoedd i'r plant archwilio a chwarae er mwyn datblygu eu dychymyg, gan gynnwys cegin fwd, llithren, ardal blannu, teganau reidio a darnau rhydd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn darparu amrywiaeth ddigonol o deganau ac adnoddau sydd mewn cyflwr da ac sy'n addas ar gyfer oedranau a chymau datblygu'r plant. Maent yn lân ac mewn cyflwr da, a chedwir cofnodion manwl o ran pryd y cânt eu glanhau a'u gwirio. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn ceisio defnyddio deunyddiau naturiol, cynaliadwy ac wedi'u hailgylchu lle y bo'n bosibl. Er enghraifft, roedd rhai o'r teganau wedi'u gwneud o bren ac roedd amrywiaeth o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu ar gael i'r plant eu harchwilio. Maent hefyd yn darparu digonedd o adnoddau amlddiwylliannol a Chymreig er mwyn i'r plant ddysgu mwy am y byd y maent yn byw ynddo.

Arwain a Rheoli

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Maent yn rhannu eu gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth â nhw ac yn sicrhau y caiff polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth eu dilyn yn effeithiol. Mae'r datganiad o ddiben yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol, sy'n golygu y gall rhieni wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch a yw'r gwasanaeth yn diwallu eu hanghenion nhw ac anghenion eu plentyn. Mae polisïau manwl ar waith sy'n amlinellu'r holl weithdrefnau i'w dilyn yn ystod pandemig COVID-19, gan olygu bod y staff yn deall yn union yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth hefyd yn adolygu polisïau'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys y wybodaeth gyfredol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn awyddus i sicrhau eu bod yn datblygu ac yn gwella'r gwasanaeth yn barhaus. Maent yn ceisio adborth ar lafar gan rieni, staff a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd, a hynny drwy holiaduron adborth. Maent hefyd yn ceisio barn y plant drwy siarad â nhw ac yn ystod arsylwadau dyddiol, er enghraifft drwy wyllo pa adnoddau y mae'r plant yn eu ffafrio a'r rhai nad ydynt yn eu defnyddio. Roedd adolygiad y llynedd o'r adroddiad ar ansawdd y gofal yn cynnwys pa welliannau a wnaed a'r rhai a oedd wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn ganlynol mewn ymateb i'r adborth a gafwyd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant rheolaidd ac maent yn eu cefnogi i gyflawni eu rolau'n effeithiol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu mynd at y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth ar unrhyw adeg i drafod unrhyw broblemau neu eu hanghenion hyfforddiant, a bod cofnodion o'r trafodaethau unigol hyn yn cael eu cadw yn eu ffeiliau staff. Mae'r rhan fwyaf o ffeiliau'r staff yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, gan ddangos bod gwiriadau recriwtio diogel ar waith. Fodd bynnag, dim ond un ddogfen hunaniaeth oedd yn ffeil un o'r aelodau newydd o'r staff. Cadarnhaodd y person â chyfrifoldeb bod hyn wedi'i unioni yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn rhannu gwybodaeth â'r rhieni'n effeithiol. Maent yn cadw tystiolaeth yn y ffeiliau o'r wybodaeth a gesglir gan y rhieni am anghenion penodol eu plant, ynghyd â'u hoff bethau a'u cas bethau. Mae'r rhieni'n canmol y gwasanaeth yn fawr. Gwnaethant ddweud wrthym fod ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r staff, a oedd yn rhannu gwybodaeth â nhw ar lafar, drwy lythyrau a thrwy dudalen breifat ar y cyfryngau cymdeithasol.

Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1- Sicrhau bod ffedogau plastig yn cael eu storio allan o gyrraedd y plant bob amser.

A2- Sicrhau bod aelod o'r staff yn llofnodi pob cofnod o ddamwain, yn ogystal â'r rhieni.

Adroddiad terfynol heb ei
gyhoeddi

Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni

Rheoliad 15 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 – Rhaid i'r datganiad o ddiben gael ei anfon atom pan fydd newidiadau, megis yr oriau agor newydd;

Rheoliad 15 (1) (a)

Rheoliad 31 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 – rhaid i ni gael gwybod am unrhyw newidiadau yn y gwasanaeth o fewn 14 diwrnod i'r newid. Yn yr achos hwn, ni chawsom ein hysbysu am oriau agor newydd y gwasanaeth.

Rheoliad 31 (1) Atodlen 4.06

Rheoliad 25 – nid oes unrhyw beryglon yn unrhyw ran o'r adeilad – cadeiriau wedi'u pentyrru fesul 5 yn y neuadd; rheiddiaduron heb eu gorchuddio yn y neuadd; cynhyrchion glanhau o dan y sinc ger toiledau'r plant y gallant gael gafael arnynt gan fod y bachau ar y cypyrddau wedi torri.

Rheoliad 25 (a)

Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni

Rheoliad 28 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 – rhaid i ffeiliau'r staff gynnwys y gwiriadau addasrwydd perthnasol ar gyfer pob aelod o'r staff

Rheoliad 28 (1) (a)

Os na fydd darparwyr yn llwyddo i wella, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Os bydd darparwyr yn methu â gweithredu â blaenoriaeth, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth

Dim

Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau

Dim

Dyddiad Cyhoeddi 12/08/2021

Adroddiad terfynol heb ei
gyhoeddi